# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 14 Tachwedd 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
A. Lenny, S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, D. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas, J.E. Williams a H.I. Jones;

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd D. Cundy mewn perthynas â chais cynllunio S/39538;
Mr G. Morgan, Cynlluniwr Trafnidiaeth gyda Fframwaith Atkins;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd (Cyswllt Cynllunio)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain)
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
P. Roberts, Swyddog Rheoli Datblygu
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 am - 12.20 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P.M. Edwards a C. Jones.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL

| Enw | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd J.E. Williams | 5 - Cais Cynllunio W/38688 - Newid llawr gwaelod hen dafarn yn llety preswyl, gan gyfuno â'r llety presennol ar y llawr cyntaf i ffurfio preswylfa hunangynhwysol; gwaredu rhan o'r waliau modern mewnol er mwyn ailgyflwyno defnydd y grisiau mewnol presennol a blocio'r drws cefn mewnol i'r estyniad yn y cefn; ynghyd â rhannu'r estyniad cefn sydd wedi'i gwblhau'n sylweddol er mwyn ffurfio dwy breswylfa ychwanegol, Ram Inn, Cwm-ann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ES. | Aelod o Gyngor Cymuned Pencarreg. |

3. **RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn unol â'r amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **E/39337** | **Dofednod Amrywio amod 22 o E/33695 (codi uned ddofednod ar fferm er mwyn cadw ieir maes (i gynhyrchu wyau) ynghyd â biniau bwyd cysylltiedig, mynediad mewnol i'r fferm a gwaith cysylltiedig). Bydd danfoniadau a chasgliadau sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig yn cyrraedd neu'n gadael y safle rhwng 08:00 a 20:00 yn unig o ddydd Llun i ddydd Sul. Os bydd argyfwng, gellir gwneud danfoniadau a chasgliadau y tu allan i'r oriau a bennwyd ar yr amod bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael gwybod yn ysgrifenedig, Godre Garreg, Llangadog, SA19 9DA.** |

4. **RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

4.1 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **S/39156** | **Materion a gadwyd yn ôl yn ymwneud â holl amodau caniatâd amlinellol S/36946 (adeiladu un breswylfa ar wahân) - ailgyflwyno S/38167, a wrthodwyd ar 11.02.2019, tir y tu cefn i 61 Heol y Pwll, Llanelli, SA15 4BD;** |
| **S/39221** | **Un cartref newydd y tu cefn i 29 Rhes Hir, Y Fron, Felin-foel, Llanelli, SA15 4LW;** |
| **S/39430** | **Adeiladu estyniad unllawr, sef cegin, gyda balconi ar y llawr cyntaf uwchben yr estyniad yn 146 Pentre Nicklaus, Llanelli, SA15 2DF;** |
| **S/39538** | **Amrywio Amod 2 ar gais S/36465 (cynlluniau), tir ger Ystad Dai Dylan, Llanelli, SA14 9AN;**<br>Cafwyd sylw gan yr Aelod Lleol a oedd yn cefnogi'r cais. |

4.2 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r rhesymau dros wrthod y cais a ddrafftiwyd gan y Pennaeth Cynllunio, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, mewn perthynas â'r cais cynllunio canlynol, y gwrthododd y Pwyllgor Cynllunio roi caniatâd cynllunio iddo, yn groes i argymhelliad y swyddog, ar 1 Hydref, 2019:-**

| | |
|---|---|
| **S/21597** | **Adeiladu 100 o breswylfeydd a gwaith cysylltiedig ar dir ger Garreglwyd, Pen-bre, Sir Gaerfyrddin.** |

5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**5.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/37254** | **Cais cynllunio i godi adeilad â gwelyau gwellt ar gyfer stoc ifanc, adeilad ar gyfer geni stoc, clampiau silwair, mannau concrid ar y buarth a phwll wedi'i ailbroffilio (sy'n rhannol ôl-weithredol), Fferm Wernolau, Llangynog, Caerfyrddin, SA33 5BN;**<br><br>Cafwyd sylwadau a wrthwynebai'r cais ac a ailadroddodd y pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys pryderon mewn perthynas â'r canlynol:<br><br>• Mae gan y fferm hanes o fethu â chydymffurfio ag amodau cynllunio;<br>• Mae'r fferm yn gweithredu ar raddfa ddiwydiannol ac yn gysylltiedig ag is-ffermydd;<br>• Dylid gosod treulydd anerobig;<br>• Mwy o allyriadau diesel o ganlyniad i gynnydd heb ei ddatgan mewn perthynas â theithiau cerbydau nwyddau trwm.<br>• Mae'r fferm eisoes yn rhy fawr ac mae nifer y lorïau trwm eisoes wedi cael effaith ar ansawdd bywyd preswylwyr lleol;<br>• Bydd y cynnydd yn nifer y da byw yn gwaethygu'r llygredd yn yr ardal drwy slyri a gwaddodion. Bydd y pyllau slyri yn effeithio ar iechyd preswylwyr lleol;<br>• Yn y gorffennol, rhoddwyd caniatâd cynllunio ôl-weithredol i'r fferm ac mae'r cais presennol hefyd yn rhannol ôl-weithredol;<br>• Diystyriwyd pryderon preswylwyr ar draul y rhwydwaith priffyrdd, ansawdd aer a llygredd sŵn;<br>• Yr effaith ar iechyd dynol.<br>• Yr effaith ar dwristiaeth - effeithiwyd ar bysgota;<br>• Yr effaith ar fentrau bach i dwristiaid yn yr ardal.<br><br>Ymatebodd yr ymgeisydd, y Swyddog Rheoli Datblygu a'r Uwch-dechnegydd (Cydgysylltydd Cynllunio Priffyrdd) i'r materion a godwyd. |

**5.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol nes cadarnhau hyfywedd yr eiddo fel tafarn yn y dyfodol:-**

[**Sylwer:** Roedd y Cynghorydd E. Williams wedi datgan buddiant yn y cais canlynol yn gynharach fel aelod o Gyngor Cymuned Pencarreg.]

| | |
|---|---|
| **W/38688** | **Newid llawr gwaelod hen dafarn yn llety preswyl, gan gyfuno â'r llety presennol ar y llawr cyntaf i ffurfio preswylfa hunangynhwysol; gwaredu rhan o'r waliau modern mewnol er mwyn ailgyflwyno defnydd y grisiau mewnol presennol a blocio'r drws cefn mewnol i'r estyniad yn y cefn; ynghyd â rhannu'r estyniad cefn sydd wedi'i gwblhau'n sylweddol er** |

| | |
|---|---|
| | **mwyn ffurfio dwy breswylfa ychwanegol, Ram Inn, Cwm-ann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ES.** |

## 6. COFNODION

### 6.1. 1AF HYDREF 2019;

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2019 yn gofnod cywir.**

### 6.2. 17EG HYDREF 2019

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2019 yn gofnod cywir.**

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]